

RHYBUDD o Benderfyniadau'r cyfarfod rhithiol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2021.

[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.

Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllodiad o'r gweithgareddau].

- Yn bresennol:** Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd)
- Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts a Robin Williams
- Y Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio - Cynllunio
- Ymddiheuriadau:** Dim
- Hefyd yn bresennol:** Aelodau Lleol: Cynghorwyr Margaret M Roberts ac Ieuan Williams (cais 7.2); Dafydd R Thomas (cais 12.3)
- Cynghorwyr Llinos M Huws, Aled M Jones, G O Jones, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS.

1.00 o'r gloch - 2.15 o'r gloch

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 COFNODION
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd fod cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2021 yn gofnod cywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 YMWELIAD SAFLEOEDD
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd fod cofnodion yr ymweliad safle rhithiol a gynhaliwyd ar 20 Ionawr, 2021 yn gofnod cywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 SIARAD CYHOEDDUS
PENDERFYNIAD	Ni chafwyd unrhyw siaradwyr cyhoeddus.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 CEISIADAU'N CODI
PENDERFYNIAD	<p>7.1 FPL/2020/150 – Cais llawn ar gyfer codi 9 ty ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ar dir yn Lôn Newydd, Llangefni</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>7.2 FPL/2019/217 – Cais llawn ar gyfer codi 17 o anheddau fforddiadwy, adeiladu dwy fynedfa newydd ar gyfer cerbydau a 3 mynedfa amaethyddol newydd, gosod gorsaf bwmpio ynghyd â gwaith tirlunio meddal a chaled ar dir ger Stâd Craig y Don a Cherry Tree Close, Benllech</p> <p>PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog gan yr ystyriwyd fod y cais yn tynnu'n groes i bolisiau cynllunio AMG 6 a TAI 16.</p> <p><i>Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am ganiatáu'r cais.</i></p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 CEISIADAU ECONOMAIDD
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 CEISIADAU AM DY Fforddiadwy
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	10 CEISIADAU'N GWYRO
PENDERFYNIAD	<p>10.1 VAR/2020/60 – Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (08)(Cynllun tirwedd) a (09)(Cynlluniau a Gymeradwywyd) o caniatâd cynllunio rhif 32C128F (Codi annedd) er mwyn caniatáu dyluniad diwygiedig a chyflwyno cynllun tirlunio ar ôl i'r gwaith ddechrau ar dir yn Tŷ Newydd, Llanfair yn Neubwll.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais ac i roi'r grym i Swyddogion weithredu unwaith y byddai'r cyfnod o ymgynghori statudol wedi dod i ben.</p> <p>10.2 FPL//2020/249 – Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a datblygiadau cysylltiedig (er mwyn diwygio dyluniad ac gosodiad a ganiateir odan cais cyfeirnod 42C258A) ar dir tu cefn i Tyddyn Orsedd, Rhoscefnhir.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad a bod Amod 1 o fewn yr adroddiad yn cael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r ffaith na fydd y datblygiad yn dechrau ddim hwyrach na 8 Rhagfyr, 2022 o ganlyniad i'r sefyllfa wrth gefn gan fod y safle eisoes â chaniatad cynllunio sy'n bodoli.</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION
PENDERFYNIAD	<p>11.1 MAQ/2020/29 – Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan caniatâd cynllunio FPL/2020/73 er mwyn diwygio dyluniad ynghyd a tynnu amod (08) (draenio mewn perthynas â phrifyrdd) yn Parciau,Llanddaniel</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>11.2 VAR/2020/74 – Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (06) o ganiatâd cynllunio rhif 45C83E (newid defnydd y gweithdy presennol i dri annedd) er mwyn</p>

	<p>ychwanegu 2 porth yn Tre Wen, Pen Lôn, Niwbwrch.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais ac i roi'r grym i Swyddogion weithredu unwaith y byddai'r cyfnod o ymgynghori statudol wedi dod i ben.</p>
--	--

RHIF YR EITEM A'R PWNC	12 GWEDDILL Y CEISIADAU
PENDERFYNIAD	<p>12.1 OP/2020/6 – Cais amlinellol ar gyfer adeiladu 31 Anheddau Preswyl newydd yn cynnwys manylion llawn am ffordd ystâd newydd ar dir gyferbyn â Roebuck Estate, Llanfachraeth, Caerdybi</p> <p>Mae'r cais wedi'i dynnu'n ôl.</p> <p>12.2 FPL/2020/264 – Cais llawn ar gyfer codi 8 uned busnes (Dosbarth B1, B2 a B8) adeiladu ardaloedd tirlunio medal a chaled ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir yn yr Hen Safle Hofrennydd, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Penrhos, Caerdybi.</p> <p>Mae'r cais wedi'i dynnu'n ôl.</p> <p>12.3 FPL/2020/195 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn y Sea Shanty Cafe, Lon St Ffraid, Bae Trearddur.</p> <p>PENDERFYNWYD gohirio'r cais am y rhesymau a roddwyd.</p> <p>12.4 HHP/2020/302 – Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 38 Lôn Conwy, Benllech.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>12.5 MAO/2020/31 – Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio FPL/2019/7 (Codi ysgol gynradd) er mwyn diwygio'r claddin a tynnu 2 dosbarth ar dir gyferbyn â Bryn Meurig, Llangefni</p>

	<p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>12.6 FPL/2020/258 – Cais llawn ar gyfer trosi cwrt tennis presennol i fod yn arwyneb 3G synthetig, amnewid y ffens bresennol am ffens 4.5 metr o uchder ynghyd ag amnewid y goleuadau presennol am oleuadau LED newydd ym Mharc Garreglwyd, Ffordd Ynys Lawd, Caergybi.</p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad ac adroddiad y Swyddog yn amodol ar yr amodau cynllunio sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.</p> <p>12.7 VAR/2020/66 – Cais o dan Adran 73 i dynnu amod (10) (Sgrin gwydr aneglur) o caniatâd cynllunio rhif FPL/2019/134 (Codi 8 rhandy) yn Yr Hen Ysgol Gynradd, Lôn Pentraeth, Porthaethwy.</p> <p>PENDERFYNWYD gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd edrych drosodd annerbyniol i'r eiddo cyfagos.</p> <p><i>Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig tan y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle i Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd am ganiatáu'r cais.</i></p>
--	--

RHIF YR EITEM A'R PWNC	13 MATERION ERAILL
PENDERFYNIAD	Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.